# GOFAL
## Golwg Fanwl ar Lythrennedd

## Cynnwys – Canllaw Marcio

D1 a 2. Darllen geiriau unigol (A/B) .......... 1
D3 a 4. Cyflymdra darllen Darn A / Darn B .......... 2
D5. Enwi Cyflym .......... 3
Y1 a 2. Sillafu geiriau unigol A / B .......... 3
Y3. Cyflymdra ysgrifennu .......... 4
Ff.1 Adnabod cyflythreniad blaen .......... 6
Ff.2. Adnabod cyflythreniad ôl .......... 6
Ff3. Adnabod odl .......... 7
Ff4. Hepgor seiniau .......... 7

## D1 a 2. Darllen geiriau unigol (A/B)

Bydd angen y daflen Darllen Geiriau Unigol A (disgybl) arnoch.

Dwedwch:

*"Dwi'n mynd i ddangos rhestr o eiriau i ti a dwi eisiau i ti ddarllen y geiriau i fi. Gelli di ddefnyddio dy fys i gadw dy le os wyt ti eisiau. Os wyt ti'n gwneud camgymeriad, gelli di gywiro dy hun a phan wyt ti'n cyrraedd gair anodd, rho gynnig arni, ond os yw'n rhy anodd symuda ymlaen i'r gair nesaf. Wyt ti'n barod?"*

- Rhowch un marc am bob ateb cywir
- Os ydy disgybl yn hunan-gywiro, marciwch yn gywir

- Byddwch yn ofalus i beidio â darllen y geiriau / cega'r geiriau eich hun

## D3 a 4. Cyflymdra darllen Darn A / Darn B

Bydd angen Darn Darllen A / B arnoch (Urdd / Uwd).

***Dwedwch:***

*"Rydw i eisiau i ti ddarllen dau baragraff yn Gymraeg. Darllena ar dy gyflymdra arferol a'r cyfan byddaf i yn ei wneud fydd amseru faint o amser mae'n cymryd i ti ddarllen y ddau ddarn, a gwneud ambell nodyn ar fy nghofnod i. Iawn?"*

**Rho gerdyn Darn Darllen 1 i'r disgybl.**

*"Barod? I ffwrdd a ti."*

- Dechreuwch y cloc pan fo'r disgybl yn dechrau darllen y gair cyntaf, a stopiwch pan fydd wedi gorffen y gair olaf.
- Am unrhyw un o'r gwallau canlynol, rhowch linell o dan y gair perthnasol:
  - Cam ddweud gair
  - Peidio â darllen gair
- Os ydy disgybl yn hunan-gywiro, hynny yw darllen gair yn anghywir ond yna ceisio eto a'i gael yn gywir, nodwch "HG" uwchben y gair.
- Os ydy disgybl yn neidio dros linell gyfan neu dros glwstwr o eiriau, rhowch linell o dan bob gair
- Os ydy disgybl yn ychwanegu gair neu eiriau, rhowch arwydd yn y bwlch lle ychwanegwyd y gair.
- Cyfrifwch y nifer o wallau (sawl llinell sydd o dan eiriau, sawl "HG" sydd a sawl " " sydd) a rhowch y rhif yn y blwch priodol ar flaen y llyfryn profion.
- Nodwch yr amser a gymerodd i ddarllen y paragraff, mewn eiliadau, yn y blwch priodol.

## D5. Enwi Cyflym

Fe fydd angen y taflenni Enwi Cyflym Rhif ac Enwi Cyflym Llythrennau arnoch chi.

**Dangoswch y dudalen ymarfer i'r disgybl.**

*"Edrycha ar y rhifau hyn. Hoffwn i ti eu darllen i fi."*

**Mae'r disgybl yn darllen y 6 rhif ymarfer. Gwiriwch eu bod yn adnabod enwau'r rhifau i gyd.**

**2 5 7 9 3 8**

*"Ar y dudalen hon mae gen i fwy'r o'r un rhifau, wedi ailadrodd. Dechreua yma ar ben y dudalen a gweithia dy ffordd ar hyd y rhesi i'r gwaelod. Dwi am i ti enwi'r rhifau ym mhob rhes mor gyflym ag y gelli di hyd nes cyrraedd y diwedd. Wyt ti'n deall? Iawn, ffwrdd a ti."*

**Dechreuwch amseru yn syth. Stopiwch amseru pan fo'r disgybl wedi dweud y rhif olaf.**

**Rhowch *gylch* o gwmpas pob gwall a *llinell* o dan unrhyw rifau mae'r disgybl yn hepgor.**

- Nodwch yr amser a gymerwyd, mewn eiliadau, yn y blwch ar flaen y llyfryn asesu darllen.
- Gwnewch yr un fath ar gyfer Enwi Cyflym (llythrennau).

## Y1 a 2. Sillafu geiriau unigol A / B

*Gellir gweinyddu'r profion sillafu ac ysgrifennu fesul grŵp neu'n unigol*

Bydd angen darn o bapur llinellau ar y disgybl, a phen neu bensil i ysgrifennu.

> Dwedwch:
>
> *“Rwy'n mynd i ddweud cyfres o eiriau ac rwyf eisiau i chi eu hysgrifennu. Arhoswch nes fy mod wedi gorffen dweud y gair cyn ysgrifennu. Rwy'n mynd i ddweud y gair, yna byddaf yn ei ddefnyddio mewn brawddeg, ac yna byddaf yn ei ddweud eto. Rwyf eisiau i chi geisio ysgrifennu pob gair, ond nid y brawddegau cyfan, hyd yn oed os nad ydych chi'n siŵr sut i ysgrifennu'r gair.”*
>
> Enghraifft: *“Mam. Mae mam yn y car.  Ysgrifennwch ‘mam’.”*

- Rhowch 1 marc ar gyfer pob gair sydd wedi ei sillafu’n gywir.
- Rhowch anogaeth i ddisgyblion i roi cynnig ar sillafu pob gair ar y rhestri.

## Y3. Cyflymdra ysgrifennu

Bydd angen darn o bapur llinellau ar y disgybl, a phen neu bensil i ysgrifennu. Rhowch y sbardun ysgrifennu i’r disgybl/ ion.

> Dwedwch:
>
> *Rwyf i am i chi ysgrifennu am ddeg munud. Rwyf am i chi ysgrifennu fel petaech chi’n gwneud gwaith dosbarth – eich cyflymdra arferol wrth ysgrifennu. Fe fydd gennych chi gwpl o funudau i gynllunio ac yna byddaf yn dechrau’r cloc pan fyddwch yn barod i ysgrifennu.*
>
> *Rwyf am i chi ysgrifennu amdanoch chi eich hun. Dyma rai syniadau i helpu. Does dim rhaid dweud y gwir - fe allech chi wneud yr holl beth i fyny os hoffech, neu fe allech chi ysgrifennu am unrhyw beth arall sydd o ddiddordeb i chi. Dim ond eich bod yn parhau i ysgrifennu ar gyflymdra arferol am y deg munud cyfan.*
>
> *Ysgrifennwch mewn brawddegau a defnyddiwch baragraffau os ydych chi’n gallu. Peidiwch boeni’n ormodol am sillafu oherwydd prif bwrpas y prawf yw gweld faint o eiriau allech chi ysgrifennu mewn deg munud.*

Rhowch gyfle i ofyn cwestiynau a phan fod y disgybl/ ion yn barod, dwedwch wrthynt i ddechrau.

Cyfrifwch bob gair a ysgrifennwyd o fewn y 10 munud.

Cyfrwch eiriau os ydynt:

- 2 lythyren neu fwy (heblaw geiriau go iawn fel "i", sydd yn cyfri fel un gair
- Yn ddealladwy
- Yn annealladwy
- Wedi eu sillafu'n gywir
- Wedi eu sillafu'n anghywir
- Wedi eu croesi allan

Cyfrifwch rifau fel un gair.

Cyfrifwch dalfyriadau (abbreviations) fel un gair.

Cyfrifwch ddyddiadau (ee 12.3.24) fel un gair.

Os ydy disgybl yn ysgrifennu dau air neu fwy fel un gair, cyfrifwch y nifer cywir o eiriau. Er enghraifft, fe fyddai "Rydwi" yn cyfri fel 2 air.

## Canran gwallau sillafu Cymraeg

Cyfrifwch gwallau sillafu **geiriau Cymraeg yn unig** – peidiwch cyfri gwallau sillafu o fewn geiriau Saesneg. Ni ystyrir gwall treiglo fel gwall sillafu, na gwall cytundeb berf os yw'r gair wedi ei sillafu mewn ffordd fyddai'n gywir mewn cyd-destun arall. Er enghraifft yn y frawddeg,

*Rydw i yn hoffi chwarrau ar yr x box cafodd fi am anreg Nadolig*

fe fyddai'r geiriau "chwarrau" ac "anreg" yn cyfri fel gwallau sillafu ond dim un gair arall.

Cyfrifwch y canran sillafu gyda'r fformiwla isod:

$$\frac{\text{Nifer gwallau sillafu Cymraeg}}{\text{Cyfanswm pob gair a ysgrifennwyd}} \times 100$$

## Ff.1 Adnabod cyflythreniad blaen

Dwedwch:

Rwyf am i ti wrando ar barau o eiriau. Mae rhai o'r parau yn dechrau gyda'r un sain, ac eraill ddim. Beth am drio un neu ddau i weld?

Ydy'r geiriau hyn yn dechrau gyda'r un sain?

- Gweithiwch drwy'r eitemau ymarfer, gan farcio pob un yn gywir / anghywir yn ôl ymgais gyntaf y disgybl.
- Os yw'r disgybl yn hunan-gywiro heb gymorth, marciwch yn gywir.
- O eitem 3 ymlaen, peidiwch roi gwybod os yw'r ateb yn gywir ai peidio.
- Ynganwch "rh" fel "rh" ac nid fel "r".

## Ff.2. Adnabod cyflythreniad ôl

Dwedwch:

Y tro hwn, rwyf am i ti wrando ar barau o eiriau ond gwranda ar y sain olaf. Ydy'r geiriau'n <u>gorffen</u> gyda'r un sain?

- Gweithiwch drwy'r eitemau ymarfer, gan farcio pob un yn gywir / anghywir yn ôl ymgais gyntaf y disgybl.
- Os yw'r disgybl yn hunan-gywiro heb gymorth, marciwch yn gywir.
- O eitem 4 ymlaen, peidiwch roi gwybod os yw'r ateb yn gywir ai peidio.
- Ynganwch "rh" fel "rh" ac nid fel "r".

## Ff3. Adnabod odl

Dwedwch:

Rwyf am i ti wrando ar barau o eiriau eto. Rwyf am i ti ddweud wrthyf os yw'r geiriau'n odli ai peidio.

Fe drïwn ni ambell un fel enghraifft.

- Gweithiwch drwy'r eitemau ymarfer, gan farcio pob un yn gywir / anghywir yn ôl ymgais gyntaf y disgybl.
- Os yw'r disgybl yn hunan-gywiro heb gymorth, marciwch yn gywir.
- O eitem 4 ymlaen, peidiwch roi gwybod os yw'r ateb yn gywir ai peidio.
- Ynganwch "rh" fel "rh" ac nid fel "r".

## Ff4. Hepgor seiniau

Dwedwch:

Rydyn ni'n mynd i wneud tasg lle dwi'n mynd i ofyn i ti dynnu ffwrdd rhan o air. Er enghraifft:

- Gweithiwch drwy'r eitemau ymarfer, gan farcio pob un yn gywir / anghywir yn ôl ymgais gyntaf y disgybl.
- Os yw'r disgybl yn hunan-gywiro heb gymorth, marciwch yn gywir.
- Peidiwch roi gwybod os yw'r ateb yn gywir ai peidio ar gyfer eitemau 6-11 ac 16 - 30.
- Ynganwch "rh" fel "rh" ac nid fel "r".
- Sylwch fod yr atebion cywir hefyd yn eiriau go iawn. Nid oes angen egluro hyn i'r disgybl.
- Nodwch y marciau i gyd ar flaen y llyfryn.
- Mae lle i chi nodi sylwadau, er enghraifft os gafodd y disgybl eitemau yn gywir ond ei fod wedi gorfod gweithio'n araf iawn i wneud hynny.

- Mae'n annhebyg (ond nid yn amhosib) bod y disgyblion wedi dod ar draws y math hwn o weithgaredd eisoes, felly mae'r eitemau ymarfer ar ddechrau pob prawf yn bwysig.